# MESUR ADDYSG (CYMRU) 2011

---

## EXPLANATORY NOTES

### SYLWEBAETH AR ADRANNAU

### Rhan 1: Cydlafurio gan gyrff addysg

### *Adran 5 – Pwerau i gydlafurio*

11. Mae'r adran hon yn rhoi pwerau eang i gyrff addysg i'w galluogi i gydlafurio, at y diben o gyflawni, neu hwyluso cyflawni, eu dyletswyddau o dan adran 3 o'r Mesur, adran 33K o Ddeddf Dysgu a Medrau 2000 ac adran 116J o Ddeddf Addysg 2002, neu ddyletswydd corff addysg arall o dan y darpariaethau hynny. Mae adran 33K o Ddeddf Dysgu a Medrau 2000 ac adran 116J o Ddeddf Addysg 2002 yn gosod dyletswyddau mewn perthynas â chyflenwi'r cwricwlwm lleol.

12. Mae adran 5 yn caniatáu i gorff addysg gydlafurio â chorff addysg arall i hwyluso cyflawni dyletswyddau'r corff addysg arall hwnnw, pa un a fyddai hynny'n hwyluso cyflawni ei ddyletswyddau'i hunan ai peidio.

13. Mae'r pwerau cydlafurio'n cynnwys pwerau i ddirprwyo swyddogaethau ac i drefnu i gyd-bwyllgorau gyflawni eu swyddogaethau.

14. Er bod y Mesur yn rhoi'r un pwerau i bob math o gorff addysg a gwmpesir gan y Mesur, nid yw'n galluogi nac yn gorfodi cyrff eraill i gydlafurio gyda chorff addysg. Mae'n bosibl, fodd bynnag, y caiff cyrff o'r fath wneud hynny o dan eu pwerau presennol.

15. Mae is-adran (3) yn darparu na fydd y pwerau newydd hyn yn effeithio ar bwerau unrhyw gorff addysg mewn unrhyw ddeddfwriaeth arall, ac y cyfyngir ar y pwerau newydd hyn gan unrhyw reoliadau a wneir o dan adran 6.